Cymdeithas y Cyfreithwyr
The Law Society

Eich canllaw i

Sefydlu busnes

Cael cyngor

Dylai sefydlu busnes fod yn broses gyffrous. Ond heb y cyngor cyfreithiol iawn gall hefyd fod yn llawn peryglon, yn arbennig pan fydd materion cyfreithiol dan sylw.
Yn rhy aml, ni fydd pobl yn gofyn am gymorth cyfreithiwr nes bod y sefyllfa wedi mynd yn argyfwng. Ond erbyn hynny, os oes ateb ar gael, gall fod yn llawer mwy costus na chymryd camau syml a allai fod wedi atal y broblem yn y lle cyntaf.

Yn amlwg, mae'n well atal problem cyn iddi godi. Mae cael cyngor cyfreithiol ar y dechrau yn golygu y gallwch osgoi argyfyngau. Gall cyfreithiwr eich helpu i nodi problemau posibl a chymryd camau i'w hatal – gan ddiogelu eich busnes rhag risg ac arbed arian i chi.

Dewis cyfreithiwr

Gallwch ddod o hyd i restr o gyfreithwyr yn hawdd drwy ddefnyddio ein llinell gymorth neu ein gwefan. Ffoniwch **020 7320 5650** neu ewch i **www.lawsociety.org. uk/findasolicitor** i ddechrau chwilio am gyfreithiwr. Efallai y byddwch am chwilio am bractis sydd â Lexcel, sef nod ansawdd cyfreithiol Cymdeithas y Cyfreithwyr. Dim ond i bractisau cyfreithiol sy'n cyrraedd y safonau uchaf o ran rheoli a gofal cwsmeriaid y dyfernir Lexcel. I gael mwy o wybodaeth, ewch i **www.lawsociety.org.uk/lexcel**

Rhestr wirio cyngor cyfreithiol

Gall cyfreithwyr gynnig cyngor ar yr holl broblemau arferol y gall busnesau newydd eu hwynebu. Gallant hefyd eich helpu i gyflwyno pob math o atebion. Er mwyn penderfynu pa fath o gyngor i'w roi i chi, bydd angen iddo ofyn llawer o gwestiynau i chi am eich busnes. Bydd y cwestiynau hyn yn ymdrin â'r meysydd cyffredinol canlynol.

Strwythur y cwmni

Bydd strwythur eich busnes yn hollbwysig i'w lwyddiant wrth i chi ddechrau ac ehangu eich busnes. A ddylech fasnachu o dan eich enw eich hun neu drwy gwmni, er enghraifft? Os ydych yn dechrau busnes gydag eraill, mae angen i chi sicrhau eich bod yn cael elw teg am eich ymdrech, felly efallai y bydd angen cytundeb cyfranddalwyr neu gytundeb partneriaeth arnoch. Gall eich cyfreithiwr esbonio'r holl ddewisiadau gwahanol a'ch helpu i benderfynu p'un yw'r un gorau i'ch busnes – partneriaeth, cwmni cyfyngedig neu bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig. Gall eich cyfreithiwr hefyd roi'r opsiwn rydych yn ei ddewis ar waith.

Eich safle busnes

Wrth ddewis safle ar gyfer eich busnes, mae'n bwysig eich bod yn deall telerau'r brydles yn llawn. A all y landlord gynyddu'r rhent? Os felly, faint a pha mor aml? A fyddwch yn talu taliadau gwasanaeth sy'n cynyddu'n gyson? A fydd angen caniatâd cynllunio arnoch ar gyfer newid defnydd? Os dewiswch redeg eich busnes o'ch cartref, beth yw'r cyfyngiadau? Gall eich cyfreithiwr eich helpu gyda'r holl gwestiynau hyn.

Cyllid

Efallai y byddwch am ganfod pa ffynonellau cyllid sydd ar gael a beth yw eu goblygiadau cyfreithiol. A ddylech forgeisio eich cartref? Gall fod goblygiadau cyfreithiol sylweddol i'r cam hwn. A yw benthycwyr yn mynnu telerau annheg? A allai eich banc gynnig gwell telerau i chi? Bydd eich cyfreithiwr yn esbonio'r meysydd hyn a gall hyd yn oed helpu i negodi cyllid ar eich rhan.

Trethi

Gall eich cyfreithiwr hefyd roi cyngor i chi ar sut i leihau trethi cymaint â phosibl a'r adeg orau i ddechrau eich blwyddyn ariannol.

Yswiriant

Gall eich busnes eich amlygu i lawer o risgiau yn ymwneud â safleoedd, cyflogeion, asedau ac ymwelwyr. Beth os bydd eich cynhyrchion neu eich gweithwyr yn anafu rhywun, er enghraifft? Beth os caiff rhywun ei anafu wrth weithio i chi? Beth os ydych yn gyfreithiol gyfrifol am gyflogai sy'n camddefnyddio'r rhyngrwyd? Bydd eich cyfreithiwr yn rhoi cyngor annibynnol i chi ar y risgiau y gall fod angen i chi yswirio rhagddynt.

Llif arian

Llif arian yw hanfod unrhyw fusnes. Gall eich cyfreithiwr eich diogelu rhag drwgddyledion drwy sicrhau eich bod yn defnyddio'r telerau masnachu cywir. Gall hefyd roi cyngor i chi ar gasglu dyledion.

Nwyddau a gwasanaethau

Pan fyddwch yn prynu neu'n gwerthu nwyddau a gwasanaethau, mae'n bwysig eich bod yn gwybod eich dyletswyddau cyfreithiol. Pa delerau cytundebol a bennir gan y gyfraith? Beth am atebolrwydd cynnyrch? Beth allwch ei ddweud yn gyfreithlon mewn hysbysebion a deunyddiau hyrwyddo? Gall cyfreithiwr ymdrin â'r holl bwyntiau hyn yn fanwl, a gall, os oes angen, eich cyfeirio at arbenigwr.

Diogelu eich syniadau

Gall cyfreithiwr eich helpu i ddiogelu eich dyluniadau rhag cystadleuwyr sydd o bosibl am ddwyn eich syniadau, p'un a ydynt am gopïo eich enw masnachol a'ch logo neu'r cynhyrchion eu hunain.

Masnachfreinio

Mae prynu busnes parod yn ddewis deniadol, ond beth am unrhyw atebolrwydd blaenorol a all ddod gydag ef neu'r print mân yn y cytundeb gwerthu? Yn rhy aml o lawer, bydd pobl yn ymrwymo i gytundeb gyda chynhyrchion drudfawr heb gymorth oddi wrth y masnachfreiniwr. Beth os na fydd y fasnachfraint cystal â'r disgwyl? A allwch gael eich arian yn ôl? Gall eich cyfreithiwr roi cyngor i chi ar yr holl broblemau cyffredin sy'n gysylltiedig â rheoli masnachfraint.

Trwyddedau

A oes angen trwydded arnoch i fasnachu? Gall eich cyfreithiwr ddweud wrthych a oes angen un arnoch a gall hyd yn oed eich helpu i wneud cais amdani.

Cymdeithas y Cyfreithwyr
The Law Society

Eich canllaw i

Sefydlu busnes

Cyflogaeth

Mae cyfraith cyflogaeth yn faes cymhleth ac mae'n newid yn gyson. Achosir y rhan fwyaf o anghytundebau cyflogaeth gan gontractau a luniwyd yn wael neu weithdrefnau diswyddo nad ydynt yn bodloni gofynion cyfreithiol. Gall eich cyfreithiwr sicrhau bod eich contractau a'ch gweithdrefnau yn gyfreithiol gadarn er mwyn atal y math hwn o anghytundebau.

Anghytuno a phroblemau

Mewn busnes fel arfer mae'n well cynllunio ar gyfer pob posibilrwydd. Beth os byddwch yn cweryla â phartner neu gyd-gyfranddaliwr? A allwch chi gael eich gorfodi i adael? Sut ydych chi'n sicrhau bod cyfrifoldebau ac elw yn cael eu rhannu'n deg? Beth os byddwch yn mynd yn sâl neu'n marw? A fydd eich gŵ r, eich gwraig, eich partner neu eich cartref wedi'u diogelu'n iawn? Bydd eich cyfreithiwr yn ymdrin â'r holl gwestiynau hyn gyda chi.

Costau

Mae'r ffioedd yn amrywio o gyfreithiwr i gyfreithiwr.
Bydd y gost derfynol yn dibynnu ar:

- eich amgylchiadau unigol;
- profiad a gwybodaeth y cyfreithiwr;
- y math o gyngor sydd ei angen arnoch.

Am y rheswm hwn, dylech ofyn am amcanbris cyn cael rhagor o gyngor.

Rhagor o wybodaeth

Mae'r daflen hon yn un o gyfres o daflenni am ddim sy'n ymdrin â'r mathau mwyaf cyffredin o wasanaethau cyfreithiol a ddarperir gan gyfreithwyr. Rhestrir taflenni eraill yn y gyfres isod.

Maent ar gael oddi wrth eich cyfreithiwr neu o **www.lawsociety.org.uk/commonlegalproblems**

Eich canllaw i ddod o hyd i gymorth cyfreithiol arbenigol
Eich canllaw i brynu cartref
Eich canllaw i wneud ewyllys
Eich canllaw i gael ysgariad
Eich canllaw i broblemau yn y gwaith
Eich canllaw i wneud cais am iawndal oherwydd anaf personol
Eich canllaw i faterion ariannol ar gyfer pobl hŷn
Eich canllaw i roi eich eiddo ar rent
Eich canllaw i rentu cartref
Eich canllaw i ddefnyddio cyfreithiwr
Eich canllaw i brofiant
Eich canllaw i hawlio lloches
Eich canllaw i ymgartrefu gyda'ch partner

Gallwn ddarparu'r wybodaeth yn y daflen hon mewn fformatau ac ieithoedd eraill ar gais.

Cysylltwch â ni ar 020 7320 5832 neu e-bostiwch accessibility@lawsociety.org.uk

Lexcel

Chwiliwch am Lexcel – y nod rhagoriaeth ar gyfer cyfreithwyr

The Law Society 113 Chancery Lane London WC2A 1PL **www.lawsociety.org.uk**

Er i ni wneud pob ymdrech i ddarparu gwybodaeth gywir, mae'r gyfraith yn newid o hyd ac yn effeithio ar bob person yn wahanol. Nid yw'r daflen hon yn disodli cyngor penodol a roddir i chi yn bersonol ac ni fyddwn yn atebol i chi os byddwch yn dibynnu ar y daflen hon.

Dyluniwyd gan dmlmarketing.co.uk Fersiwn 4, 2012 LSwbusiness